



## Rhwydwaith Ein Ffermydd

Mae 15 Fferm Ffocws wedi ymuno â Rhwydwaith Ein Ffermydd gan ganolbwyntio ar y canlyniadau RhTG isod (mae rhai prosiectau yn canolbwyntio ar fwy nag un). Y canlyniadau mwyaf cyffredin yw:



Mae 5 prosiect grwpiau trafod wedi dechrau gydag 85 o ffermwyr ar draws ystod o grwpiau trafod sy'n canolbwyntio ar:



## Dosbarthiadau Meistr

1124 wedi cymryd rhan ar draws 78 Dosbarth Meistr, gan gynnwys:

Mae digwyddiadau'r Dosbarth Meistr yn cyd-fynd yn uniongyrchol â chanlyniadau RhTG, a hefyd yn cyfrannu at ddeilliannau eraill yn anuniongyrchol; roedd y niferoedd uchaf o fynychwyr mewn digwyddiadau a oedd yn cwmpasu'r canlyniadau RhTG canlynol:

- > Defnyddio adnoddau'n effeithlon
- > Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr
- > Dŵr glân
- > Safonau iechyd a lles anifeiliaid uchel

**Adborth:** "Diwrnod eithriadol. Doeddwn i erioed wedi clywed am chwilod y dom o'r blaen a'u rôl mewn ecosystem gydnerth. Wedi mwynhau'r demo Cyfrif Wyaŷ Ysgarthol a sut y gall hyn gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles anifeiliaid."

## Grwpiau Trafod

Categoriâu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r nifer o gyfarfodydd Grwpiau Trafod



Enghreifftiau o bynciau'r cyfarfodydd:

Gwndwn llysiuol a chnydau gwraidd | Llygredd Amaethyddol | Maeth | Geneteg ac EBVau – Defaid a gwartheg | Meincnodi | Clefydau heintus mewn dofednod | Dylunio Busnes Ffermio

## Mentora

Darparwyd 516.9 awr o fentora

Dyma ambell ddyfyniad o'r dyddiaduron mentora:

- 1) Edrychwyd ar wahanol ddulliau o sefydlu planhigion mewn caeau wrth barhau i bori gyda defaid, rhai cnydau biomas a fyddai'n briodol ar gyfer tomwellt garddwriaethol / compost, a rhywogaethau sy'n gallu gwrthsefyll gwynt y gellid eu defnyddio fel llain gysgodi gydag amlygiad morwrol sylweddol.
- 2) Buom yn trafod protocol ffeilio TAW cyfredol y mentorai a ph'un a oedd ffordd fwy fforddiadwy i ffeilio ei TAW. Dangosais enghreifftiau iddi o systemau ffeilio eraill a sut y gallent weithio iddi. Gwnaethom hefyd edrych ar effeithlonrwydd ei glianiadur a pha welliannau y gellid eu gwneud i'w gyflymu a gweithio'n well iddi.
- 3) Trafodwyd risgiau dŵr ffo buarth, rheolau storio tail a rheolau clamp silwair (SSAFO) yn ogystal â rheoliadau Rheoli Llygredd newydd. Edrychwyd ar gyfleoedd amrywiol i leihau dŵr budr trwy osod toi dros ardaloedd ar yr iard a pha un fyddai'r mwyaf ymarferol i'w wneud. Trafodwyd cynllun grant gorchuddio iard a all helpu i wneud hyn.

## Agrisgôp

Cynhaliwyd 23 o gyfarfodydd Agrisgôp.

- Dŵr glân 3
- Gwella mynediad ac ymgysylltu 4
- Safonau iechyd a lles anifeiliaid uchel 10
- Gwneud y mwyaf o storio carbon 2
- Lleihau nwyon tŷ gwydr 5
- Ecosystemau cydnerth 2
- Defnyddio adnoddau'n effeithlon 7

Canolbwyntiodd y grwpiau a gyfarfu yn ystod y cyfnod hwn ar:

1) Y neges i fynd adref oedd dechrau ymgorffori Mantais Cloffni mewn penderfyniadau genetig ac edrych ar genomeg heffrod i helpu gyda phenderfyniadau bridio. Gall geneteg gyfrif am 30% o'r amrywiad mewn tueddiad i gloffni ac felly gallwn leihau cloffni trwy well detholiad genetig a fydd, yn ei droi, yn gwella cynhyrchiant ac yn lleihau allyriadau.

2) Ymweliad safle i weld gwaith y Treuliwr Anaerobig – a gynhelir gan y ffermwr a'r gosodwr – taith gam wrth gam o'r broses gyfan gan gynnwys y buddsoddiad ac Elw ar Fuddsoddiad.

- Cyflwyniad ar y farchnad ynni gyfredol a rhagamcanion ar gyfer y dyfodol – ynghyd ag arddangosiad o'r porth Cytundeb Prynu Pŵer i helpu cynhyrchwyr i wneud y mwyaf o'u helw – prynu ymlaen hyd at 12 mis ymlaen llaw. Trafodwyd yn helaeth y cyfleoedd llai o fewn defnydd eich busnes eich hun a phryniant allanol gan y prif gwmnïau lluosog / archfarchnadoedd ac ati.
- Yn ystod yr ymweliad safle ac yn yr adolygiad, treuliodd llawer o amser yn trafod gwerth y gweddillion treuliodd a dŵr wedi'i wahanu ar lefel arbedion a gwerth maethol – sy'n golygu gostyngiad yn yr ôl troed carbon fel gostyngiad yn y gwrtaith anorganig a fewnforiwyd.

## Hyfforddiant Achrededig

Cefnogwyd 195 o unigolion

CANLYNIADAU RhTG	Unigolion a Gefnogwyd	Enghraifft o Gyrsiau a Gymerwyd
Aer glân	6	Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnydd Diogel o Blaladdwyr (PA1) a Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA2)
Dŵr glân	7	Defnyddio Dip Defaid yn Ddiogel
Gwella mynediad ac ymgysylltu	60	Dyfarniad Lefel 2 mewn Rheoli Cnofilod
Safonau iechyd a lles anifeiliaid uchel	63	Cneifio Defaid gyda Pheiriant
Gwneud y mwyaf o storio carbon	7	Pori Cadwraeth
Ecosystemau cydnerth	2	Archwiliad Coed Sylfaenol
Defnyddio adnoddau'n effeithlon	43	Cynnal a chadw llif gadwyn a thrawsdorri
Tirweddau naturiol a'r amgylchedd hanesyddol gwarchoddedig	7	Pori Cadwraeth

## E-Ddysgu

Mae pob modiwl e-ddysgu yn cyd-fynd â chanlyniadau RhTG.

**Y modiwl mwyaf poblogaidd ar gyfer y cyfnod hwn yw:** Gwella mynediad ac ymgysylltu

Unigolion a Gefnogwyd: 531

Mae enghreifftiau o'r modiwlau yn cynnwys:

E-Ddysgu: Uned Orfodol: Hanfodion Busnes Llwyddiannus

E-Ddysgu: Uned Orfodol: Ffrwythloni artiffisial

E-Ddysgu: Technoleg fanwl gywir mewn amaethyddiaeth

## Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid



### CANLYNIADAU RhTG:

Safonau Iechyd a Lles anifeiliaid uchel

Unigolion a Gefnogwyd: **627**

#### Enghraifft o Weithdai a Gymerwyd:

Rheoli Parasitiaid Defaid Rhan 2: Clafr, Llau a Llyngyr yr Iau  
Cloffni mewn Defaid  
Deall Clefyd Johnne's

## Gwasanaeth Cyngori



Enghreifftiau o gyngor a roddwyd yn erbyn Canlyniadau RhTG:

- 81** Cyngor ar Gynllunio Busnes ac Arallgyfeirio
- 85** Cyngor Iechyd Anifeiliaid
- 3** Technegol - Amaeth-amgylchedd, Gwasanaethau Ecosystemau a Bioamrywiaeth
- 207** Technegol - Rheoli Glaswelltir a Chnydau Technegol
- 9** Technegol - Rheoli Da Byw a Pherfformiad Technegol

Adborth; "Rwy'n gweld y cyngorydd yn ddefnyddiol iawn i'n busnes, ac mae'n hyddysg iawn yn ei faes. Mae'n un o'r goreuon. Diolch."  
"Cyngor ardderchog. Mae'n hawdd siarad â'r ymgynghorydd. Bu'n werthfawr iawn i'n busnes."

Cyhoeddir yr holl erthyglau, fideos, cyhoeddiadau technegol, erthyglau a phodlediadau ar [wefan Cyswllt Ffermio](#).

## Podlediad - Clust i'r Ddaear



### Rhifyn 88:

Rheoli coetir ac ychwanegu gwerth at goed yn Fron Haul, Abergele

## Clinigau



Cwblhawyd **519** o glinigau

"Diolch am y cyfle i ddeall mwy am ein priddoedd. Mae wedi darparu llinell sylfaen ar gyfer y newidiadau rheoli yr ydym yn gobeithio eu gwneud."

## Cymorthfeydd



Cwblhawyd **268** o gymorthfeydd

Roedd y pynciau'n cynnwys -



Coetir



Glaswelltir

## Astudiaeth Achos

Hyder ffermwr llaeth o Gymru i newid rheolaeth trwy fesur porfa yn lleihau ei gostau mewnbyn o £20,000

"Mae wedi dangos i mi beth sy'n bosibl. Pe bai rhywun wedi dweud wrthyf ychydig flynyddoedd yn ôl faint o laeth y gallwn ei gynhyrchu ar y fferm hon o laswellt, mi fyddwn wedi chwerthin yn eu hwynebau ond mae cael y data wedi dangos yr hyn y gallwn ei gyflawni."

## Rhaglen Geneteg Defaid Cymru



Canlyniadau RhTG	Nifer y digwyddiadau	Nifer y mynychwyr
Safonau Iechyd a Lles anifeiliaid uchel	6	101
Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr	7	74
Defnyddio adnoddau'n effeithlon	1	34

### Mae enghreifftiau o bynciau yn cynnwys:

- Cyflwyniad i gofnodi perfformiad
- Taith astudio geneteg i'r Alban
- Pwysigrwydd maeth mamogiaid cyn ac ar ôl wyna

## Garddwriaeth

Cynhaliwyd 12 o ddigwyddiadau **hyfforddiant garddwriaethol**:


Canlyniadau RhTG	Nifer y Digwyddiadau	Nifer y mynychwyr
Gwella mynediad ac ymgysylltu	3	15
Ecosystemau cydnerth	3	33
Defnyddio adnoddau'n effeithlon	6	72
<b>Cyfanswm</b>	<b>12</b>	<b>120</b>

### Enghreifftiau o weithdai hyfforddi:

- Ystyried tyfu llysiâu ar raddfa cae
- Mesurau ymarferol i leihau colledion stoc meithrinfeydd dros y gaeaf
- Marchnata digidol ar gyfer newydd-ddyfodiaid i arddwriaeth

Cymorth Busnes Garddwriaeth:  
Cafwyd **75 awr** o gymorth:

Canlyniadau RhTG	Nifer y Digwyddiadau	Nifer y cyfranogwyr
Dŵr glân	1	1
Gwella mynediad ac ymgysylltu	6	6
Ecosystemau cydnerth	9	12
Defnyddio adnoddau'n effeithlon	33	39
<b>Cyfanswm</b>	<b>49</b>	<b>58</b>



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**